Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Syr Thomas Jones

Pentrefelin
Amlwch
Ynys Môn
LL68 9TH

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Syr Thomas Jones

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Syr Thomas Jones |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Dwyieithog |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | - |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 537 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 473 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 64 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Uwchradd yw 20.3%) | 16.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Uwchradd yw 9.0%) | 14.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 45.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2025 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/10/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 10/11/2025 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)](https://mylocalschool.gov.wales)

**a.** Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Syr Thomas Jones yn gymuned gynnes, ofalgar ei naws. Mae darpariaeth lles gynhwysfawr ar gael i ddisgyblion, gan gynnwys 'Grisiau 6', sy'n cynnig ystod o ymyraethau effeithiol. Mae trefniadau diogelu cadarn ar waith ac mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel. Mae cysylltiadau cryf ag asiantaethau allanol yn ychwanegu at ansawdd y ddarpariaeth lles. Mae trefniadau pontio effeithiol o'r cynradd i'r uwchradd yn cefnogi disgyblion i deimlo'n gartrefol yn gyflym. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gadarn ac yn sensitif. Mae'r tîm ADY yn nodi anghenion disgyblion yn brydlon ac yn defnyddio ystod gynhwysfawr o ddata i lywio ymyraethau effeithiol i gefnogi'r disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos ymddygiad cwrtais a pharchus ac agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae disgyblion yn adalw dysgu blaenorol yn briodol ac yn datblygu eu gwybodaeth bynciol yn gyson. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn, yn aml oherwydd disgwyliadau uchel yr athro a'u hagweddau cydwybodol at waith. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn aeddfed, yn huawdl ac yn cyfrannu'n fuddiol at fywyd yr ysgol. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi cyflawni canlyniadau is ar ddiwedd Blwyddyn 11 na'u cyfoedion mewn ysgolion tebyg.

Mae gweledigaeth glir ar gyfer Cwricwlwm i Gymru ac mae'r cwricwlwm yn eang, gan gynnwys cyfleoedd galwedigaethol sy'n addas i'r ardal leol. Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi profiadau disgyblion ac yn hyrwyddo eu lles a'u datblygiad personol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthynas waith adeiladol â disgyblion ac yn cynnig cyfarwyddiadau clir. Mae llawer o athrawon yn modelu iaith yn dda, gan gyflwyno geirfa a therminoleg bynciol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn gyffredinol, maent yn cynllunio gweithgareddau addas sy'n adeiladu'n raddol er mwyn cefnogi cynnydd disgyblion. Mae llawer yn holi cwestiynau priodol ac yn addasu cyflymder y wers i weddu i gyflymder dysgu'r disgyblion. Yn yr ychydig achosion gorau, mae addysgu yn egnïol gyda disgwyliadau uchel, holi dyfnach a defnydd effeithiol o ddwyieithrwydd. Mae'r athrawon hyn yn cynllunio cyfres o wersi heriol, yn esbonio cysyniadau'n glir ac yn defnyddio enghreifftiau perthnasol i helpu disgyblion wneud cysylltiadau. O ganlyniad, mae disgyblion yn cymhwyso eu gwybodaeth i gyd-destunau newydd yn hyderus. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, nid yw disgwyliadau'n ddigon uchel ac mae gweithgareddau'n rhy syml, gan gyfyngu ar gynnydd disgyblion. Nid yw gwahaniaethu na holi yn ddigon effeithiol i herio'r ystod gallu. Drwyddi draw, ceir diffyg cyfleoedd cyson ar draws y cwricwlwm i ddatblygu uwch fedrau darllen y disgyblion, yn enwedig yn y Gymraeg.

Mae’r pennaeth a’r uwch dîm arwain yn rhannu gweledigaeth gytûn ac yn cydweithio’n agos. Mae prosesau hunanwerthuso cynhwysfawr ar waith, gan ddefnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i lywio gwelliant. Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol ar gael i staff ac mae’r llywodraethwyr yn cynnig her addas ac yn cefnogi’r ysgol yn effeithiol. Fodd bynnag, mae amrywiaeth yn effeithiolrwydd arweinwyr canol, ac nid ydynt bob amser yn arfarnu effaith y ddarpariaeth ar safonau disgyblion yn ddigon manwl.

Mae’r ysgol wedi gweithredu’n rhagweithiol i wella presenoldeb disgyblion. Mae prosesau monitro ac atebolrwydd addas sy’n galluogi arweinwyr i ddadansoddi patrymau presenoldeb yn briodol. Fodd bynnag, mae angen gwella presenoldeb disgyblion yr ysgol ymhellach.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella:

A1 Gwella presenoldeb

A2 Mynd i'r afael â'r meysydd penodol ar gyfer gwelliannau mewn addysgu a nodwyd yn yr adroddiad

A3 Cryfhau’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd Cymraeg disgyblion, yn enwedig eu huwch fedrau darllen

A4 Sicrhau bod arweinwyr canol yn arfarnu ansawdd y ddarpariaeth yn ôl ei effaith er mwyn adnabod yr union feysydd sydd angen eu gwella.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Ysgol Syr Thomas Jones yn ymddwyn yn gwrtais a pharchus wrth gyfarch ei gilydd, staff yr ysgol ac ymwelwyr. Maent yn cyrraedd eu gwersi yn brydlon, yn gwrando'n astud ar yr athro a'u cyfoedion, ac maent yn ymgymryd â thasgau â pharodrwydd. Yn gyffredinol, mae agweddau llawer o ddisgyblion at ddysgu yn dda. O gael y cyfle, mae mwyafrif y disgyblion yn cydweithio'n gynhyrchiol mewn parau neu grwpiau gan gyd-drafod yn briodol. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud y cynnydd disgwyliedig yn eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth. Gallant adalw dysgu blaenorol yn briodol ac, o ganlyniad, maent yn datblygu eu gwybodaeth bynciol yn gynyddol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn. Yn aml, mae hyn o ganlyniad i ddisgwyliadau uchel yr athro ac agweddau cydwybodol y disgyblion hyn at eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthynas waith adeiladol a chynhaliol â'r disgyblion sydd yn eu gofal. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn llywio'r dysgu yn addas trwy gynnig cyfarwyddiadau clir i'r disgyblion. Mae llawer o athrawon yn fodelau iaith da sy'n cyflwyno geirfa a therminoleg bynciol yn bwrpasol yn y Gymraeg a'r Saesneg wrth gyflwyno ac esbonio cynnwys y wers. Ar y cyfan, maent yn cynllunio gweithgareddau addas sy'n adeiladu'n raddol er mwyn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd. Mae llawer o athrawon yn holi cwestiynau priodol er mwyn profi adalw'r disgyblion ac yn cynnig arweiniad addas iddynt wrth fynd o amgylch y dosbarth. Yn ogystal, maent yn addasu rhediad y wers fel ei bod yn cyd-fynd â chyflymder dysgu'r disgyblion.

Yn yr ychydig o achosion lle mae'r addysgu ar ei gryfaf, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Maent yn hynod frwdfrydig am eu pwnc ac yn cyflwyno eu gwersi yn egnïol. Mae'r athrawon hyn yn cynllunio cyfres o wersi yn fedrus er mwyn herio disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Holant gwestiynau yn grefftus er mwyn dyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion a datblygu eu medrau llafar. Llwyddant i esbonio cysyniadau yn effeithiol iawn gan ddewis enghreifftiau sy'n helpu disgyblion wneud cysylltiadau â'r hyn maent wedi'i ddysgu yn barod. O ganlyniad, mae disgyblion yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i gyd-destunau newydd yn hyderus. Mae ychydig o athrawon yn fedrus iawn wrth addysgu'n ddwyieithog, gan gywiro ac annog disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn sensitif ac effeithiol.

Yn y gwersi hynny ble mae cymhorthydd dysgu yn cefnogi disgyblion, mae cydweithio effeithiol rhwng staff i gefnogi anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw athrawon bob amser yn gwahaniaethu'r addysgu yn ddigon

effeithiol er mwyn diwallu anghenion disgyblion ar draws yr ystod gallu, yn enwedig y disgyblion mwyaf galluog.

Mewn ychydig o achosion, nid yw'r addysgu yn ddigon effeithiol gan olygu bod disgyblion yn gwneud cynnydd mwy cyfyngedig. Yn yr achosion hyn, nid yw disgwyliadau'r athro yn ddigon uchel ac maent yn tueddu i ganiatáu i ddisgyblion fod yn oddefol neu gyflawni llai na beth gallent. Nid yw gweithgareddau wedi eu cynllunio'n ddigon effeithiol gan olygu eu bod yn bytiog neu'n cadw disgyblion yn brysur yn hytrach na datblygu'r dysgu. Yn aml, mae'r athrawon hyn dim ond yn holi cwestiynau caeedig ac, o ganlyniad, nid oes cyfleoedd i ddisgyblion esbonio eu hatebion yn llawn a meddwl yn ddyfnach. Mae ychydig o athrawon yn colli cyfleoedd i atgyfnerthu geirfa disgyblion a'u hannog i ddatblygu eu medrau Cymraeg.

Yn gyffredinol, mae ansawdd sylwadau ysgrifenedig athrawon a'u heffaith ar gynnydd disgyblion yn amrywio. Yn yr enghreifftiau gorau, mae sylwadau penodol a chlir yr athro yn cefnogi disgyblion i ddyfnhau eu dealltwriaeth, gwella ansawdd eu gwaith, ynghyd â gwella eu mynegiant. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Lle mae'r adborth yn llai effeithiol, mae'n aml yn arwynebol neu'n or-ganmoliaethus.

## Medrau llythrennedd

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau eu hathrawon a chyfraniadau eu cyfoedion mewn gwersi. Maent yn cynnig atebion priodol i gwestiynau eu hathrawon ac yn gwneud cyfraniadau pwrpasol wrth drafod eu gwaith. Defnyddiant eirfa a therminoleg bynciol yn addas yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cyfraniadau estynedig huawdl gan gyflwyno eu syniadau ac esboniadau yn effeithiol. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn cynnig atebion byr, annatblygedig i gwestiynau eu hathrawon ac mae ychydig yn amharod i gyfrannu i waith trafod. O gael y rhyddid i siarad yn annibynnol o fewn pâr neu grŵp, mae llawer o ddisgyblion yn troi at y Saesneg, hyd yn oed yn y gwersi hynny ble mae disgwyl iddynt gyfrannu trwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad, maent yn colli cyfleoedd gwerthfawr i ymarfer eu medrau ieithyddol.

Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith. Mae llawer ohonynt yn gwrando'n ofalus ac yn deall yr iaith yn dda. Maent yn ynganu geiriau ac ymadroddion yn glir, ac mae lleiafrif ohonynt yn ymateb yn hyderus trwy roi atebion estynedig. Fodd bynnag, mae diffyg hyder gan ychydig o ddisgyblion i siarad Cymraeg.

Yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion yn briodol. Mae cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu eu medrau darllen sylfaenol mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn lleoli gwybodaeth yn

hyderus a llwyddant i adnabod ac esbonio dyfyniadau i gefnogi eu pwyntiau. Yn ogystal, mae llawer ohonynt yn crynhoi prif bwyntiau testunau unigol yn effeithiol, er enghraifft wrth iddynt grynhoi credoau a dysgeidiaeth Cristnogion am sut i drin eraill yn eu gwersi crefydd, gwerthoedd a moeseg. Yn y gwersi Cymraeg a Saesneg, mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu rhai o'u huwch fedrau darllen. Mae ychydig o ddisgyblion yn adnabod nodweddion iaith a thechnegau llenyddol yn effeithiol gan esbonio eu heffaith ar y gynulleidfa yn hyfedr. Er enghraifft, maent yn dadansoddi sut mae'r awdur yn llwyddo i ddenu pobl ar daith cwmni 'Seren Arian' i goffau can mlynedd ers marwolaeth Hedd Wyn. Yn ogystal, mae'r disgyblion hyn yn adnabod ystyr sydd ymhlyg mewn testun yn effeithiol wrth drafod ffynonellau amrywiol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu huwch fedrau darllen ar draws pynciau'r cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn dechrau datblygu diwylliant o ddarllen. Er enghraifft, mae'r adrannau Cymraeg a Saesneg yn neilltuo gwersi i annog disgyblion iau yr ysgol i ddarllen er pleser. Yn ogystal, mae cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion iau sydd â medrau darllen gwan trwy sesiynau darllen 'bydi' ble mae disgyblion blwyddyn 10 yn annog a chefnogi eu partneriaid iau i ddatblygu eu medrau.

Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm ac yn eu gwersi iaith. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Llwyddant i ddefnyddio terminoleg bynciol a threfnu eu gwaith gan ddefnyddio paragraffau'n addas. Mae ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol iawn gan fynegi eu hunain yn soffistigedig. Mae gan y disgyblion hyn eirfa eang a llwyddant i ddefnyddio eu dychymyg yn greadigol. Er enghraifft, wrth iddynt lunio rysáit i Gwydion ar gyfer creu Blodeuwedd yn eu gwersi Cymraeg. Fodd bynnag, gwna leiafrif o ddisgyblion gamgymeriadau sillafu a gramadeg sylfaenol yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae ychydig yn defnyddio geiriau Saesneg neu fratiaith wrth gyflwyno eu gwaith yn y Gymraeg. Mae ychydig o ddisgyblion yn ei chael yn anodd trefnu eu gwaith.

### Medrau rhifedd

Yn eu gwersi mathemateg ac ar draws y cwricwlwm, mae ystod briodol o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd. Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfoethogi'r dysgu o fewn y pynciau perthnasol ac yn cynnig lefel her addas i ddisgyblion yn y rhan fwyaf o achosion. Mae gan fwyafrif y disgyblion fedrau rhifedd priodol. Mae gafael gadarn ganddynt ar gysyniadau rhif elfennol, gan gynnwys y pedair rheol a chyfrifiadau gyda chanrannau. Er enghraifft, yn eu gwersi mathemateg, gallant gyfrifo faint o dreth fydd ei angen i berson dalu ar lefelau gwahanol o gyflog. Yn eu gwersi technoleg, maent yn medru defnyddio gwybodaeth am wahanol fwydydd i weithio allan effaith deiet ar iechyd person.

Mae mwyafrif y disgyblion yn dangos dealltwriaeth briodol o gysyniadau sy'n ymwneud â siâp a mesur. Er enghraifft, maent yn medru cymhwyso eu dealltwriaeth o aildrefnu fformiwlâu a thrigonometreg i ddatrys amrywiaeth o broblemau sydd wedi eu gosod mewn cyd-destun bywyd. Mae llawer o ddisgyblion yn arddangos a dadansoddi data yn llwyddiannus mewn sefyllfaoedd ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn plotio graff o wrthiant gwifren yn erbyn ei hyd, gan ddefnyddio'r graff i adnabod perthynas rhwng y newidynnau ac allanolion yn eu harbrawf. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o dybiaeth wrth benderfynu sut i gasglu data ar gyfer ymchwiliad.

Mae gan leiafrif o ddisgyblion fedrau rhifedd gwan. Nid oes gafael digon cadarn ganddynt ar gysyniadau elfennol rhif ac mae hyn yn cyfyngu eu cynnydd wrth ddatrys problemau rhifiadol mwy dyrys. Mae arweinwyr ym maes mathemateg a rhifedd yn adnabod hyn ac wedi blaenoriaethu'n synhwyrol wella agweddau penodol o'r cwricwlwm a chynnal rhaglen o ymyraethau er mwyn i'r afael â'r agwedd hon.

## Medrau digidol

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn effeithiol o fewn gwersi technoleg gwybodaeth. Er enghraifft, maent yn elwa o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau codio, defnyddio taenlenni a chyflwyno gwybodaeth. Ar y cyfan, mae disgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn addas ar draws y cwricwlwm. Yn y gwersi gwyddoniaeth, mae llawer yn cael cyfleoedd buddiol i raglennu 'microbit' i gyfrifo camau a'u heffaith ar y galon. Yn y gwersi technoleg, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau digidol yn effeithiol i ddylunio cynnyrch, ac yn y gwersi cerdd, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio meddalwedd yn greadigol i greu cerddoriaeth hip-hop a rap.

## Medrau eraill

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn fuddiol. Er enghraifft, wrth ddylunio logo newydd i'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 8 yn trafod effeithiolrwydd eu gwaith mewn ymateb i ddyluniadau yr arlunydd Coco Davez ac wrth drafod brandio cwmni lleol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda wrth ymarfer eu medrau pasio pêl ac maent yn addasu eu pasio'n effeithiol i weddu i wahanol bellteroedd a chyflymderau. Mae disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau meddwl yn dda wrth adnabod peryglon a risgiau ym myd adeiladwaith, deall y gwahaniaeth rhwng y ddau, ac ystyried hefyd y difrifoldeb wrth greu asesiad risg.

## Cwricwlwm

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir er mwyn gwireddu Cwricwlwm i Gymru. Mae'r weledigaeth yn seiliedig ar ddarparu cwricwlwm sy'n meithrin dysgwyr hyderus, creadigol, llwyddiannus a pharchus. Rhoddir pwyslais ar roi cyfleoedd cyfartal i bawb, gan gynnwys disgyblion ag ADY a'r rheiny sy'n cael eu heffeithio gan dlodi. Mae disgyblion ag ADY yn

elwa o ddarpariaeth gwricwlaidd bersonol a hyblyg. Maent yn cael cefnogaeth fuddiol i ddiwallu eu hanghenion ac i gyflawni amrywiaeth o brofiadau a llwyddiannau, er enghraifft cymwysterau Agored Cymru, sgiliau bywyd a chymorth cyntaf. Er bod yr ysgol yn adnabod disgyblion mwy abl a thalentog, nid oes darpariaeth strwythuredig ar eu cyfer.

Mae'r cydweithio effeithiol â sefydliadau eraill ar yr ynys yn sicrhau cwricwlwm cytbwys ac eang sy'n diwallu anghenion y disgyblion yn dda. Mae'r arlwy o bynciau ym Mlwyddyn 10 ac 11 yn gynhwysfawr, yn cynnwys pynciau cyffredinol a galwedigaethol megis gwallt a harddwch, technoleg cerbydau a dylunio peirianneg. Mae'r bartneriaeth â Chonsortiwm Ôl-16 Ynys Môn yn sicrhau dewis eang o opsiynau ôl-16, gan gynnwys pynciau galwedigaethol fel peirianneg fecanyddol a gwyddoniaeth feddygol.

Mae'r rhaglen iechyd a lles ar gyfer Blynyddoedd 7, 8 a 9 yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am themâu pwysig fel iechyd meddwl a diogelwch ar-lein. Ceir integreiddio effeithiol o themâu ysbrydol a moesol megis amrywiaeth, cydraddoldeb a dinasyddiaeth ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys addysg rhyw a pherthnasoedd sy'n addas i oedran, ac sy'n cyfrannu'n sylweddol at ddiwylliant o ddiogelu a pharch. Mae darparwyr ac arbenigwyr allanol yn dod i'r ysgol yn rheolaidd i gyfoethogi'r ddarpariaeth, er enghraifft i ddarparu sesiynau ar drais rhywiol yn y cartref. Er bod ychydig o gyfleoedd addas i ddisgyblion Blwyddyn 11 a'r chweched dosbarth glywed am faterion cyfoes pwysig, nid oes trefniadau digon cyson iddynt.

Ceir trefniadau gwerthfawr o ran pontio o'r cynradd i'r uwchradd. Mae'r 'Clwb Croeso' wythnosol yn nhymor yr Hydref, lle mae disgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld â'r ysgol ac yn gwneud gweithgareddau o fewn y meysydd dysgu a phrofiad, yn eu paratoi'n  dda ar gyfer trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Mae amrywiaeth o gyfleoedd allgyrsiol gwerthfawr i ehangu profiadau'r disgyblion sy'n cyfrannu'n sylweddol at eu lles a'u datblygiad personol, er enghraifft y clybiau pêl-fasged, pêl-droed merched, y clwb caredigrwydd a 'Chlwb yr Afon Goch sy'n hyrwyddo Cymreictod. Mae'r gwersi coginio pwrpasol ar gyfer y chweched dosbarth yn eu paratoi'n dda ar gyfer bywyd annibynnol ar ôl gadael yr ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig ymweliadau addysgol gwerthfawr i'r disgyblion, gan gynnwys teithiau tramor fel y daith sgïo ac ymweliadau agosach er mwyn hyrwyddo eu hymwybyddiaeth o yrfâu, diwydiant lleol a'u hunaniaeth, er enghraifft i RAF Valley, Wylfa a'r orymdaith flynyddol Dydd Gŵyl Dewi yn Amlwch.

## Chweched dosbarth

Mae disgyblion y chweched dosbarth yn aeddfed ac yn gallu mynegi eu hunain yn huawdl yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae ganddynt agweddau da at ddysgu. Cyfrannant yn hyderus ar lafar yn y dosbarth ac wrth holi eu cwestiynau eu hunain. Maent yn adalw gwybodaeth

flaenorol yn dda ac yn cymhwyso hyn yn briodol i sefyllfaoedd newydd. Maent yn caffael gwybodaeth newydd yn gyflym. Manteisiant ar y cyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau arweinyddiaeth a chefnogi eu datblygiad personol drwy arweinyddiaeth o'r cyngor ysgol a'r cyngor eco, aelodaeth o bwyllgorau, gweithgareddau elusennol a chyrsiau arweinyddiaeth chwaraeon.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gynnes, gartrefol a gofalgar lle mae disgyblion a staff yn cydweithio'n effeithiol iawn i gefnogi'r disgyblion. Mae'r staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac yn darparu cefnogaeth les gynhwysfawr sy'n diwallu anghenion unigol yn sensitif ac yn amserol. Mae darpariaeth 'Grisiau 6', sef darpariaeth les yr ysgol, yn enghraifft nodedig o hyn. Mae'n cynnig ystod o ymyraethau effeithiol, megis sesiynau lles emosiynol, therapi celf a'r ystafell 'Tangnefedd', sy'n cyfrannu at deimlad cryf ymhlith disgyblion o fod yn ddiogel ac yn hapus. Mae'r 'bwtwm lles' ar wefan yr ysgol ar gael i bob disgybl rannu pryder a cheir ymateb prydlon gan staff. Mae cysylltiadau cryf ac ystyrlon ag asiantaethau allanol, megis gweithwyr ieuenctid yr Hwb, cwnselwyr a'r heddlu lleol, yn ychwanegu'n sylweddol at ansawdd y ddarpariaeth les.

Caiff ymddygiad ac agweddau disgyblion at ddysgu eu monitro'n effeithiol gan yr arweinwyr bugeiliol. Mae cysondeb yr athrawon wrth ddilyn y camau cefnogi disgyblaeth yn caniatáu i arweinwyr bugeiliol ddadansoddi patrymau ymddygiad yn strategol, gan ymyrryd yn fuan ac yn briodol er mwyn cefnogi dysgwyr. Mae cydweithio pwrpasol rhwng arweinwyr bugeiliol a Grisiau 6 yn gryfder nodedig. O ganlyniad, mae disgyblion yn cael cynhaliaeth gynhwysfawr sy'n hyrwyddo ymddygiad ac agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae disgyblion iau'r ysgol yn ymfalchïo yn eu pwyntiau ymddygiad positif ac mae'r ysgol wedi datblygu ethos cystadleuol ymysg y disgyblion lle mae ymddygiad da yn ddisgwyliedig.

Mae gan yr ysgol gyngor effeithiol lle mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arwain ac ymgymryd â chyfrifoldebau sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae is-bwyllgorau'r cyngor ysgol yn datblygu'r medrau arwain ymhellach ac yn cynnig cyfleoedd i aelodau'r cyngor ffocysu ar feysydd o ddiddordeb personol, er enghraifft y pwyllgor eco sydd wedi gwella amgylchedd yr ysgol. Mae'r cyngor wedi gweithredu newidiadau gwerthfawr drwy wella'r toiledau, diweddaru polisi gwisg i ganiatáu disgyblion i wisgo siorts trwy gydol y flwyddyn a gosod goliau pêl-droed a phêl-fasged newydd. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn ystyried eu barn ac yn gweithredu ar eu syniadau.

O dan arweiniad clir y tîm ADY, mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth addas ac effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gweithdrefnau priodol ar waith i nodi anghenion disgyblion yn brydlon, ac mae'r tîm yn casglu ac yn dadansoddi ystod

gynhwysfawr o wybodaeth berthnasol. Mae’r ysgol yn defnyddio data ar lythrennedd, rhifedd a lles emosiynol er mwyn llywio’r ymyraethau mwyaf addas. Mae trefniadau tracio a monitro trylwyr yn sicrhau bod cynnydd disgyblion yn cael ei adolygu’n rheolaidd o’u mannau cychwyn, gan alluogi’r tîm i addasu cefnogaeth yn ôl yr angen. Mae’r cynlluniau datblygu unigol a’r proffiliau un tudalen yn cynnig gwybodaeth fanwl a thargedau penodol ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae gan yr holl staff fynediad i grynodeb defnyddiol o’r wybodaeth hon i lywio’u cynllunio. Mae canllawiau addas ar ystod eang o anghenion penodol ar gael, sy’n cynorthwyo staff i ddeall a diwallu anghenion unigol wrth addysgu. Mae hyfforddiant priodol i athrawon a chymorthyddion yn cefnogi datblygiad strategaethau addysgu ar gyfer disgyblion ag ADY. Er hyn, nid yw staff bob amser yn defnyddio’r strategaethau hyn i gefnogi disgyblion yn gyson yn y gwersi.

Mae’r ysgol yn ymwybodol o heriau absenoldeb ac wedi cryfhau arferion er mwyn gwella presenoldeb disgyblion. Yn ddiweddar, mae’r ysgol wedi dechrau gweithredu system ymateb graddedig strategol gyda rolau clir a gweithredoedd i bawb sydd ynghlwm â chefnogi presenoldeb. Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, gostyngodd y gyfradd bresenoldeb, ac roedd yn is na’r hyn a welir mewn ysgolion eraill tebyg. Fodd bynnag, mae data gan yr ysgol sydd heb ei ddilysu ar gyfer hanner tymor cyntaf 2025-2026 yn dangos bod cyfraddau presenoldeb yr ysgol wedi cynyddu’n sylweddol o gymharu â’r un cyfnod y llynedd.

Mae trefniadau cadarn ar waith i ddiogelu disgyblion ac mae staff ar draws yr ysgol yn eu deall yn dda. Mae staff yn deall sut i ymateb i bryderon, gan sicrhau bod materion posibl yn cael eu dilyn i fyny yn briodol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn teimlo’n ddiogel a’r rhan fwyaf yn nodi eu bod yn rhydd o unrhyw fwlio ac yn hyderus ynghylch yr hyn i'w wneud os oes ganddynt bryderon. Mae hyfforddiant pwrpasol a rheolaidd ar ddiogelu yn cael ei ddarparu i bob aelod o staff a llywodraethwyr, gan atgyfnerthu eu dealltwriaeth o bolisïau a gweithdrefnau statudol. Mae arweinwyr yn gweithio’n agos ac yn effeithiol gydag ystod o asiantaethau allanol, sy’n cyfrannu’n sylweddol at sicrhau diogelwch a lles y disgyblion. Cedwir cofnodion electronig manwl o unrhyw bryderon sy’n ymwneud â disgyblion, gan alluogi arweinwyr i greu darlun clir o anghenion unigol a chyd-destun ehangach unrhyw sefyllfa. Yn ogystal, mae’r ysgol yn gweithredu’n rhagweithiol i gefnogi dealltwriaeth y disgyblion o sut i gadw’n ddiogel, drwy weithgareddau megis sesiynau lles yn y cyfnodau cofrestru, gwasanaethau ac mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

## Arwain a gwella

Mae’r pennaeth yn arweinydd meddylgar ac egnïol. Caiff ei gefnogi’n gadarn gan weddill yr uwch dîm arwain. Maent yn cydweithio’n agos ac yn rhannu’r weledigaeth gytûn i gynnig y profiadau gorau posibl i’r disgyblion, beth bynnag  eu cefndir. Mae’r weledigaeth hon wedi ei rhannu’n llwyddiannus â holl gymuned yr ysgol.

Mae rolau a chyfrifoldebau'r uwch dîm arwain wedi eu dyrannu'n deg ac yn manteisio ar gryfderau'r aelodau unigol. Mae arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth lles, trefniadau diogelu disgyblion ac ansawdd yr addysgu mewn llawer o achosion. Mae'r gefnogaeth i les staff yn sgil cyfnod anodd iawn dros y misoedd diwethaf yn gryfder nodedig. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arwain wedi llwyddo i gynnal morâl staff a'u cefnogi'n effeithiol trwy gyfnod trist.

Mae gan yr ysgol brosesau hunanwerthuso cynhwysfawr sy'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu tystiolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys cyfweliadau â disgyblion, craffu ar lyfrau, arsylwadau gwersi a defnydd priodol o ddata i godi cwestiynau am ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r ysgol yn rhan o 'Gynghrair Môn', sef partneriaeth ysgolion uwchradd yr ynys. Mae'r trefniant hwn yn helpu i gryfhau a chefnogi eu harferion yn y maes hwn a dilysu'r canfyddiadau o'r prosesau hunanwerthuso. Trwy'r gweithgareddau hyn, mae gan yr uwch dîm arwain adnabyddiaeth dda o'r prif gryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Mae trefniadau rheolaeth llinell yn briodol. Cynhelir cyfarfodydd cyson gydag agendau cytûn ac mae'r arweinwyr canol yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth sylweddol a'r herio proffesiynol maent yn eu cael gan y rhai sy'n eu harwain. Mae arweinwyr canol yn frwdfrydig am eu meysydd cyfrifoldeb. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiaeth yn eu heffeithiolrwydd. Yn y lleiafrif o achosion gorau, mae ganddynt ddealltwriaeth fanwl o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn eu meysydd cyfrifoldeb. Fodd bynnag, nid yw'r holl arweinwyr canol yn ystyried yn ddigonol effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd disgyblion. O ganlyniad, nid ydynt yn adnabod yr union elfennau o safonau disgyblion sydd angen eu gwella ac felly nid yw'r cynllunio gwelliant yn ddigon miniog.

Mae cyswllt agos rhwng y prosesau hunanwerthuso, cynllunio gwelliant ac adolygiadau datblygiad proffesiynol. Mae'r staff yn gwerthfawrogi'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael trwy'r arlwy eang o brofiadau dysgu proffesiynol mae'r ysgol yn ei gynnig i'r holl staff. Nodwedd gref o'r cynnig hwn yw'r cyfleoedd pwrpasol i athrawon ddatblygu agweddau ar addysgu a'r hyfforddiant i arweinwyr ddatblygu eu medrau cymell. Mae cynnig dysgu proffesiynol yr ysgol yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar agweddau megis datblygu agweddau ar y medrau ac arweinyddiaeth ganol.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw addas i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae ffocws priodol ar gefnogi datblygiad ym medrau llafar Cymraeg disgyblion ac mae darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Serch hyn, nid yw gwaith yr ysgol i wella cyfraddau presenoldeb wedi bod yn ddigon effeithiol.

Mae arweinwyr yn rhoi ffocws addas ar leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad disgyblion. Mae hyn yn cyd-fynd yn agos â gweledigaeth yr ysgol i ddarparu'r cyfleoedd gorau posibl i bob disgybl, beth bynnag eu cefndir. Defnyddir y grant datblygu disgyblion yn bwrpasol i

gefnogi disgyblion bregus ac mae'r ysgol yn gwerthuso'n briodol effaith y gwariant hwn. Mae arweinwyr yn tracio cynnydd disgyblion bregus yn agos gan gynnig mentora, cefnogaeth lles, ac ymyraethau academaidd, yn ôl yr angen. Mae'r ysgol yn darparu cynhaliaeth i sicrhau bod disgyblion sy'n cael eu heffeithio gan dlodi yn gallu ymgymryd yn llawn â'r cyfleoedd allgyrsiol mae'r ysgol yn eu cynnig, gan gynnwys gwersi offerynnol, a theithiau lleol a rhyngwladol. Fodd bynnag, dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn eu cymwysterau ar ddiwedd Blwyddyn 11 yn gyffredinol is na'u cyfoedion mewn ysgolion tebyg.

Mae'r llywodraethwyr yn rhannu gweledigaeth yr uwch dîm arwain ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau fel ffrind beirniadol yn frwdfrydig. Mae ymdeimlad cryf o gydweithio ag arweinwyr yr ysgol ac maent yn cynnig her addas.

Mae'r ysgol yn cyrchu barn rheini yn gyson, gan wneud defnydd priodol o'r canfyddiadau yn eu prosesau hunanwerthuso. Mae arweinwyr yn cyfathrebu'n gyson â rhieni trwy amrywiaeth o ffyrdd fel defnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol ac atgyfodiad cylchlythyr yr ysgol, 'Y Leinws Newydd'.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/01/2026